# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 2024** |
| **Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Jasmine Tompkins**<br><br>**Sarah Clarke**<br><br>**Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol** |
| **Adran:** | **Iechyd y Cyhoedd, Iechyd a Llesiant** |
| **Pennaeth Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Ed Wilson** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Eluned Morgan - Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | **25/10/2023** |

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Cefndir

Mae Pwysau Iach: Cymru Iach yn egluro ein strategaeth a'n gweledigaeth 10 mlynedd i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o fesurau sy'n cael eu hystyried o dan strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae'r asesiad effaith drafft isod yn ymwneud â dau gynnig yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol: cyfyngiadau ar hyrwyddo a lleoli bwydydd sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr a halen a werthir gan fanwerthwyr bwyd a chyfyngiadau ar ail-lenwi diodydd meddal llawn siwgr am ddim mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref. Mae'r asesiad wedi'i ddiweddaru i gefnogi'r ymgynghoriad hwn ar y Rheoliadau drafft a'r dull polisi o orfodi. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu gwneud yn unol ag unrhyw adborth a gawn yn ystod yr ymgynghoriad.

Mae'r data'n dangos:

- Erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, roedd cyfran y plant â gorbwysau neu ordewdra yn 13.4% a 11.4% yn y drefn honno yn 2022/23[1].
- Roedd 60% a mwy o oedolion dros 16 oed dros bwysau neu'n ordew[2]
- Amcangyfrifir bod cost lawn flynyddol gordewdra yng Nghymru ar hyn o bryd yn £3 biliwn[3].
- Gordewdra yw un o'r prif risgiau i iechyd yng Nghymru. Dyma brif achos nifer o gyflyrau o bwys gan gynnwys diabetes math 2, clefyd cardiofasgwlaidd a rhai canserau, ac mae yna gysylltiadau hefyd â phroblemau orthopedig, iechyd meddwl gwael ac iselder.

Nid yw plant ac oedolion yng Nghymru yn bwyta deiet cytbwys. Rydym yn bwyta gormod o siwgr, braster dirlawn a halen a gormod o galorïau, ond dim digon o ffibr, ffrwythau a llysiau[4]. .

Mae'n amlwg bod angen gweithredu. Fodd bynnag, mae atal gordewdra yn her gymhleth, ac mae llawer o ffactorau'n cyfrannu ar lefel unigol, cymunedol, cymdeithasol a byd-eang.

### Yr Amgylchedd Bwyd

Roedd yr ymgynghoriad ar gynigion polisi yn 2022 yn nodi bod ein hamgylchedd bwyd wedi datblygu mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i gyfleustra dros iechyd. Mae

[1] CMP 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
[2] Ffordd o fyw oedolion yn ôl blwyddyn, 2020-21 ymlaen (llyw.cymru)
[3] Cyflwyniad PowerPoint (frontier-economics.com)
[4] Llywodraeth Cymru. (2019). Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau ar gyfer Blynyddoedd 5 i 9 o'r Rhaglen Dreigl i Gymru (2012/2013 – 2016/2017) a dadansoddiad o dueddiadau dros amser ac incwm (Blynyddoedd 1 i 9; 2008/09 – 2016/17)

hyn yn cynnwys canolbwyntio ar fwydydd hawdd a chyflym, sy'n aml yn rhoi llawer o egni ac yn cynnwys llawer o fraster a/neu siwgr ac sy'n fwy fforddiadwy weithiau.

- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae camau wedi'u cymryd i annog y diwydiant i sicrhau bod y bwyd y mae'n ei werthu yn iachach ac yn cynnwys llai o galorïau (trwy raglenni lleihau calorïau, siwgr a halen Llywodraeth y DU) a labelu cynhyrchion i helpu pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus ac iachach (er enghraifft, trwy labelu maeth ar flaen pecynnau). Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gyflwyno ledled y DU yn wirfoddol. Er bod y diwydiant bwyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o safbwynt ail-fformiwleiddio cynhyrchion a darparu opsiynau iachach o ganlyniad, nid yw'r gwaith hwn wedi'i wneud na'i gynnal yn gyson. Ac eithrio labelu maeth ar flaen pecynnau lle mae nifer defnyddwyr yn uchel (ar tua dau draean o fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw), nid yw dulliau gwirfoddol yn y maes hwn wedi cyflawni'r newid angenrheidiol. Er enghraifft, dim ond 52% o'r holl dargedau cyfartalog a nodwyd yn rhaglen lleihau halen 2014-2017 y llwyddodd cynhyrchwyr a manwerthwyr i'w cyrraedd [5].

Mae llawer o resymau pam nad yw camau gweithredu gwirfoddol yn llwyddo bob amser nac yn sicrhau'r newid sydd ei angen. Un o'r prif resymau yw bod diffyg cysondeb wrth roi'r camau ar waith yn arwain at sefyllfa anghyfartal. Mae'r cynnig hwn yn nodi sut y bydd deddfwriaeth yn y maes hwn yn adeiladu ar gamau gweithredu gwirfoddol, yn sicrhau cysondeb, yn darparu eglurder ac yn helpu i ddarparu amgylchedd siopa iachach i'r defnyddiwr. Bydd yn helpu i sicrhau chwarae teg ar gyfer y diwydiant bwyd, gan sicrhau nad yw'r rhai sy'n gwneud ymdrech i gynyddu argaeledd a hyrwyddo opsiynau iachach o dan anfantais o gymharu â'r rhai nad ydynt yn gwneud ymdrech o'r fath.

<u>Basgedi siopa iachach</u>

Yn benodol, mae tactegau marchnata a hyrwyddo mewn siopau yn effeithiol iawn o ran dylanwadu ar ddewisiadau prynu bwyd. Mae 40% o'r bwyd a diod[6] sy'n cael eu prynu mewn siopau yn y DU yn cael eu gwerthu fel rhan o gynnig arbennig, a'r ganran hon yw'r uchaf yn Ewrop. Wrth edrych ar y ffigurau diweddaraf cyn COVID ar gyfer Cymru[7], ymddengys bod y tactegau hyrwyddo hyn yn fwyaf cyffredin ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr neu halen er enghraifft, bisgedi (33.9%) a melysion (36.1%).

Mae cynigion mor effeithiol nes bod manwerthwyr yn dewis gwerthu rhai cynhyrchion sy'n cael eu prynu'n rheolaidd (a elwir yn eitemau gwerth allweddol)[8] am golled er mwyn ein denu i'w siopau. Drwy wneud hyn, maent yn gobeithio y byddwn yn gwneud ein siopa bwyd wythnosol neu fisol yno gan gynyddu eu cyfran o'r farchnad siopa bwyd.

---

[5] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2015). Sugar reduction: from evidence into action
[6] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2015). Sugar reduction: from evidence into action
[7] Kantar Worldpanel Take Home Purchasing | 52we data to 29 Dec 19
[8] [Key Value Item Pricing Strategy | Examples & Benefits (symson.com)]

Er bod cynigion yn gallu rhoi'r argraff eu bod yn arbed arian i ddefnyddwyr, mae data'n dangos eu bod yn gallu cynyddu gwariant[9] defnyddwyr tua 20% mewn gwirionedd. Mae'r cynhyrchion hyn yn annog pobl i brynu mwy nag yr oeddent wedi bwriadu ei brynu yn y lle cyntaf. Mae ymchwil yn dangos hefyd bod hyd at 83% o'r eitemau sy'n cael eu prynu fel rhan o gynnig arbennig yn enghreifftiau o brynu byrbwyll, gyda dim ond 17% wedi'u cynllunio. Mae pobl ar incwm is neu bobl sydd â phlant yn fwy tebygol o brynu bwyd a diod sy'n cynnwys lefel uchel o fraster, siwgr neu halen (HFSS) os ydynt ar werth fel cynnig arbennig. Er enghraifft, mae tua hanner yr eitemau siocled sy'n cael eu prynu yn cael eu gwerthu fel cynnig arbennig. Nid yw defnyddwyr yn prynu bwyd i'w storio wrth gefn fel arfer[10], er eu bod yn bwriadu gwneud hynny o bosibl, ac yn gyffredinol mae prynu eitemau ychwanegol yn arwain at fwyta mwy o fwyd a chaloriau.

Mae defnyddwyr Cymru'n cydnabod dylanwad cynigion arbennig o'r fath ar eu harferion prynu, ac yn ôl arolwg barn Ymchwil Canser[11] roedd 86% o'r ymatebwyr yn credu bod bargeinion sy'n cynnig bwyd ychwanegol yn cael effaith ar faint o fwyd nad yw'n iach y maent yn ei brynu. Yn ôl arolwg barn 2016 y cylchgrawn Which?[12] y prif beth roedd defnyddwyr am i fanwerthwyr ei wneud oedd cynnwys mwy o fwydydd iach mewn cynigion arbennig.

Gall lleoliad cynhyrchion ddylanwadu'n fawr ar ein dewisiadau bwyd hefyd. Canfu astudiaeth 2018 y Gynghrair Gordewdra[13] fod 43% o'r holl gynhyrchion bwyd a diod a leolir mewn mannau amlwg, megis arddangosfeydd wrth fynedfeydd siopau, mannau talu, pen yr eil, neu unedau arddangos annibynnol ar gyfer bwydydd a diodydd llawn siwgr. Defnyddir y math hwn o farchnata yn eang yn y DU i hyrwyddo bwydydd â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr, ac mae'n cael dylanwad mawr ar blant a phobl ifanc[14]. Mae'n annog pobl i brynu'n fyrbwyll[15], sy'n gyfrifol am rhwng 45% a 70% o'r holl fwyd sy'n cael ei brynu, ac 80% o'r hyn a brynir mewn rhai categorïau.

Roedd gan rai archfarchnadoedd gyfran uwch o fwyd a/neu ddiodydd llawn siwgr yn y mannau talu nag eraill, yn amrywio o 30% mewn un archfarchnad fawr i 73% mewn archfarchnad arall. Hefyd nododd astudiaeth y Gynghrair Gordewdra fod llai nag 1% o'r cynhyrchion bwyd a diod a oedd yn cael eu hyrwyddo mewn mannau proffil uchel yn ffrwythau neu lysiau. Hefyd, mae tystiolaeth[16] yn awgrymu bod gosod cynhyrchion mewn lle amlwg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn eu prynu yn annibynnol ar unrhyw ostyngiadau mewn prisiau, gan ddangos bod gosod cynnyrch

---

[10] NHS Health Scotland. (2017). Rapid evidence review: The impact of promotions on high fat, sugar and salt (HFSS) food and drink on consumer purchasing and consumption behaviour and the effectiveness of retail environment interventions
[11] BBC Wales. (2019). Cheap junk food to blame for obesity in Wales
[12]Which? (2016). Should retailers do more to promote healthier food?
[13] The Obesity Health Alliance. (2018). Out of place – The extent of unhealthy foods in prime locations in supermarkets
[14] Prifysgol Stirling. (2015). The impact of food and drink marketing on Scotland's children and young people
[15] BRQ Business Research Quarterly. (2015). Merchandising at the point of sale: differential effect of end of aisle and islands
[16] Ibid.

mewn lle amlwg yn golygu bod pobl yn rhagdybio'n anghywir eu bod yn cael gwell gwerth am arian. Mae cynhyrchwyr bwyd yn talu premiwm i osod eu cynnyrch yn y mannau hyn.

Bwyta'n iachach y tu allan i'n cartrefi

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi hefyd bod ail-lenwi diodydd meddal llawn siwgr am ddim yn nodwedd o rai bwytai a thafarndai cadwyn. Fel arfer, mae'r diodydd hyn yn cael eu prisio i ymddangos fel opsiwn sy'n cynnig gwerth da am arian o'i gymharu â phrynu un eitem, fel potel o ddiod feddal, gan annog pobl i'w prynu. Hefyd, mae'n bosibl y bydd y cyfle i nôl eu diodydd eu hunain, ynghyd a'r dewis o 26 o fathau a blasau, yn apelio at blant. Mae'n rhesymol rhagdybio y gall darpariaeth o'r fath gynyddu faint o ddiodydd meddal llawn siwgr sy'n cael eu hyfed, ac felly cynyddu nifer y calorïau sy'n cael eu hyfed, heb ddarparu llawer o faetholion ychwanegol, os o gwbl.

Yn 2015, cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg (SACN) adroddiad ar garbohydradau ac iechyd[17], a oedd yn argymell y dylid haneru faint o siwgr y mae pobl yn ei fwyta fel rhan o'u cyfanswm calorïau dyddiol o 10% i 5%, a lleihau faint o ddiodydd melys llawn siwgr sy'n cael eu hyfed. Nododd yr adroddiad fod yfed diodydd llawn siwgr yn arwain at gynnydd mewn pwysau nad yw'n iach ymysg plant a phobl ifanc, ac mae'n gysylltiedig â risg uwch o bydredd dannedd, gyda 28% o blant yn dioddef o bydredd dannedd erbyn iddynt droi'n bump oed. Ymysg oedolion, mae gormod o siwgr yn arwain at fwyta gormod o galorïau, ennill pwysau a gordewdra.

Dangosodd ffigurau o'r arolwg deiet a maeth cenedlaethol[18], fel y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad SACN, mai diodydd llawn siwgr sy'n cyfrannu yn fwy na dim (30%) at y siwgr sy'n cael ei fwyta gan blant 4 i 10 oed. O'i gymharu â'r argymhelliad newydd gan SACN, roedd plant a phobl ifanc yn bwyta ac yn yfed tua thair gwaith yn fwy o siwgr na'r hyn a argymhellir, ac roedd llawer ohono’n dod o ddiodydd siwgr uchel.

## Beth mae Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoliad) (Cymru) 2024 yn ei gynnwys?

Bydd y rheoliadau arfaethedig yn cyfyngu ar leoli yn y mannau gorau a chynigion seiliedig ar gyfaint ar gyfer bwydydd penodol sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, halen a siwgr gan fanwerthwyr bwyd a diod mawr i ganolig. Bydd ail-lenwi diodydd meddal llawn siwgr am ddim yn y sector y tu allan i'r cartref yn cael ei gyfyngu hefyd.

## Cyflawni yn erbyn amcanion y Rhaglen Lywodraethu a Llesiant

[17]Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2015). SACN Carbohydrates and Health Report

[18] Llywodraeth Cymru. (2019). Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau Blynyddoedd 5 i 9 o'r Rhaglen Dreigl i Gymru (2012/2013 – 2016/2017) a dadansoddiad o dueddiadau dros amser ac incwm (Blynyddoedd 1 i 9; 2008/09 – 2016/17)

Mae datblygu strategaeth gordewdra yn ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Nod y cynigion hefyd yw newid arferion deietegol yn gysylltiedig â'r Cynllun Sero Net.

Nid yw'r camau gwirfoddol gan y diwydiant i gynorthwyo'r cyhoedd i wneud dewisiadau iachach (ailfformiwleiddio, labelu maeth ac ati.) wedi cael yr effaith a ddymunwyd o ran newid deietegol. Y cynnig hwn fydd y cam cyntaf o ran sicrhau chwarae teg trwy gyfyngu ar leoli a hyrwyddo bwydydd nad ydynt yn iach.

Bydd gan y cynnig hwn gyfraniad sylweddol wrth gyflawni yn erbyn ymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi ffocws parhaus ar rôl atal.

**Cenedlaethau'r Dyfodol**

Datblygwyd y Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, ynghyd â'r ymgynghoriad ar fesurau Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022 yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y gellir sicrhau dull seiliedig ar systemau sy'n galluogi arweinyddiaeth ar bob lefel ac a fydd yn sicrhau'r effaith fwyaf ar brofiadau byw pobl yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

<u>Hirdymor</u>

Nod y ddeddfwriaeth newydd hon yw symud yr amgylchedd bwyd tuag at opsiynau iachach fel rhan o ddull sy'n cynnwys sawl elfen sy'n canolbwyntio ar sut y gallwn gyflawni ein nodau deng mlynedd a nodir yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Wrth i ni symud ymlaen gyda'r strategaeth, byddwn yn feiddgar ac yn profi ffyrdd newydd o wneud pethau ac yn dysgu wrth i ni fynd ati i wella'n barhaus. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ymgorffori amrywiaeth o ymyriadau effeithiol i gefnogi'r amodau sydd eu hangen i effeithio ar iechyd ein cenedl yn y tymor hir.

<u>Atal</u>

Mae atal yn ystyriaeth ganolog yn y cynnig hwn. Ein nod yw galluogi pobl i wneud dewisiadau bwyd iachach a chael gwared ar ysgogiadau sydd ar gael yn yr amgylchedd bwyd, sy'n ein symud tuag at brynu bwyd sy'n wael i'n hiechyd deietegol ac sy'n debygol o'n gwneud yn sâl yn feddyliol ac yn gorfforol.

<u>Integreiddio</u>

Bydd y rhaglen ehangach o newid sy'n cael ei hystyried ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth gychwynnol hon yn cymryd ymagwedd llywodraeth gyfan ar draws adrannau amrywiol. Byddwn yn cysylltu'r broses o gyflawni â'r saith nod llesiant a byddwn yn cydweithio â chyrff cyhoeddus i ddod ag amrywiaeth o nodau polisi ynghyd. Byddwn yn ystyried sut y gallwn weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i gyflawni ein nodau ac i ddatblygu dull sy'n ystyried y system fwyd ehangach. Rydym wedi ymrwymo hefyd i gydweithio'n agos â'r diwydiant i lunio'r canllawiau technegol sy'n nodi sut y dylid gweithredu'r ddeddfwriaeth.

<u>Cydweithio</u>

Pan gynhaliwyd ein hymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach gwreiddiol yn 2022, fe wnaethom gytuno i greu'r amodau cywir i syniadau trawsnewidiol a chydweithio

ffynnu. Drwy gydol y broses o ddatblygu polisi, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid a'n grwpiau cenedlaethol allweddol ar draws y diwydiant i sicrhau bod yr hyn rydym yn ei gynnig yn ymarferol i bob grŵp yr effeithir arnynt. Wrth i ni ystyried cymryd camau pellach mewn perthynas â'n hamgylchedd bwyd, byddwn yn parhau i gynnwys partneriaid cyrff cyhoeddus, y trydydd sector ac arweinwyr cymunedol i fireinio'r holl opsiynau polisi posibl.

Costau ac Arbedion

Mae'r rhain i'w gweld yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd hefyd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Ein prif grŵp targed ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw busnesau bwyd yr effeithir arnynt a chyrff gorfodi. Rydym wedi gwneud gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd eisoes fel rhan o'n hymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach blaenorol, a oedd yn cynnwys y cynnig polisi hwn. Roedd yn cynnwys:

- digwyddiadau rhanddeiliaid yn targedu'r diwydiant bwyd a sefydliadau anllywodraethol
- grwpiau ffocws yn targedu ein grwpiau blaenoriaeth cyhoeddus
- ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach i gynnwys digwyddiadau sioe deithiol

Nod y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd casglu adborth a dealltwriaeth fanwl rhanddeiliaid o blith cynrychiolwyr y diwydiant bwyd a chyrff anllywodraethol. Roedd y grwpiau ffocws yn targedu'r grwpiau blaenoriaeth canlynol:

- plant oedran cynradd hŷn (10 - 11 oed)
- plant oedran uwchradd
- pobl Ifanc (16 - 25 oed)
- rhieni a gofalwyr (o fabanod i bobl ifanc yn eu harddegau)
- pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol C1, C2, D ac E
- pobl ar deithiau colli pwysau
- pobl o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol
- pobl 45 oed a hŷn.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Bwriad y rheoliadau drafft rydym yn ymgynghori arnynt yw datblygu amgylchedd bwyd iachach er mwyn sicrhau mai'r dewis iachach, yw'r dewis hawdd. Mae hyn yn rhan o ddull sy'n cynnwys sawl elfen a nodir yn y strategaeth genedlaethol Pwysau Iach: Cymru Iach ac mae'n ategu ein dull cyffredinol o fynd i'r afael ag agweddau newid amgylcheddol ac ymddygiadol er mwyn helpu i leihau ac atal gordewdra ledled Cymru.

Gwyddom bellach mai gordewdra yw un o brif achosion marwolaethau cynamserol y gellir eu hatal. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau bydd mwy o bobl yng Nghymru yn marw'n gynamserol oherwydd canser, clefyd y galon, clefyd yr afu a diabetes. Bydd mwy o fywydau'n cael eu heffeithio'n andwyol gan anabledd a salwch. Mae gordewdra’n cael effaith negyddol ar ein hiechyd meddwl hefyd sydd, mewn llawer o achosion, yn bresennol o oedran ifanc ac yn cael canlyniadau ac effeithiau gydol oes. Rydym wedi gweld sut mae pandemig fel COVID-19 wedi amlygu anghydraddoldebau iechyd, gan effeithio ar ordewdra a'r cymunedau lle mae nifer yr achosion o ordewdra yn uwch mewn ffordd anghymesur.

Ar lefel poblogaeth, rydym yn prynu ac yn bwyta gormod o fwydydd sy'n cynnwys lefel uchel o fraster, halen a siwgr. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar ein hiechyd ac rydym eisiau newid yr amgylchedd bwyd fel y gellir newid ymddygiad deietegol.

Nid ydym am gynyddu costau byw i bobl ac rydym yn gwybod y gall llawer o gynhyrchion sy'n cael eu hyrwyddo gynyddu cost siopa wythnosol mewn gwirionedd. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried unrhyw effeithiau andwyol y gallai hyn eu cael ar grwpiau o gefndiroedd economaidd is yn ofalus drwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi hwn a byddwn yn parhau i ystyried unrhyw rwystrau neu broblemau canfyddedig a ddaw i'n sylw drwy'r broses ymgynghori hon.

Rydym yn ymwybodol hefyd o'r costau i fusnesau yr effeithir arnynt a chyrff gorfodi o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol arfaethedig ac rydym yn parhau i fod yn agored i ystyried sut gallwn weithio i leihau'r effeithiau hyn. Rydym wedi cyhoeddi asesiadau effaith ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn i'w hystyried ymhellach gan yr holl ymatebwyr.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig:**

- **yn gwneud y cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd lleihau cyfraddau gordewdra a bod dros bwysau ar draws y boblogaeth yn ganlyniad allweddol i'r rheoliadau arfaethedig a bydd yn helpu i gyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni'r nodau a nodir yn y strategaeth ddeng mlynedd Pwysau Iach: Cymru Iach a ddatblygwyd yn ei thro yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i gefnogi'r ddeddf honno. Drwy ail-lunio'r amgylchedd bwyd fel ei bod yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau bwyd iach, nod hirdymor y polisi yw atal mwy o bobl rhag datblygu salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra. Yn ei dro, y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i leihau'r bwlch cynyddol mewn perthynas ag

anghydraddoldebau iechyd[19] hefyd, gan greu cymdeithas iachach, fwy cyfartal i bawb. Mae hyn yn cefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn uniongyrchol, sy'n ymwneud â gwneud ymyriadau cadarnhaol nawr, er budd pobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r cynnig yn cyfrannu'n fwyaf nodedig tuag at nodau llesiant canlynol y Ddeddf:

- **Cymru iachach**
    - Sicrhau bod amgylcheddau bwyd yn y sector manwerthu’n gwneud y dewis iach yn ddewis hawdd i ddefnyddwyr Cymru.
    - Defnyddio dull ataliol o leihau cyfraddau gordewdra a nifer y bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**
    - Cefnogi camau i gau'r bwlch rhwng canlyniadau iechyd yn y cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig ledled Cymru drwy geisio mynd i'r afael â lefelau cynyddol gordewdra, yr ydym yn gwybod ei fod yn effeithio'n anghymesur ar y rhai mewn cymunedau economaidd-gymdeithasol is[20].

Rydym yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a phobl yr effeithir arnynt fwyaf gan y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig polisi hwn i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i iechyd y cyhoedd.

### 8.4 Sut fydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan fydd yn dod i ben?

Bydd gwerthusiad cadarn yn cael ei roi ar waith ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Bydd hyn yn ceisio deall buddion iechyd unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd bwyd. Bydd hyn yn ystyried defnyddio data a dadansoddiad o gostau i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

---

[19] Roberts, M., Petchey, L., Challenger, A., Azam, S., Masters, R., a Peden, J. (2022). Cost of living crisis in Wales: A public health lens. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

[20] Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (2019). Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol, Blwyddyn Ysgol Cymru 2018/19. Ar gael yn: [phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/cmp-2018-19/child-measurement-programme-for-wales-report-2018-19/](phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/cmp-2018-19/child-measurement-programme-for-wales-report-2018-19/)